

## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 9 Mai 2011.**

**Minutes of Annual Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 9 May 2011.**

**Yn Bresennol/Present:** Cyng/Cllr Richard Anwyl Tom Cowcher Mrs Eileen Curry  
Douglas Davies Mrs Philippa Davies Keith Evans Wyn Evans Terry Griffiths Andrew Howell  
Philip Marchant and Mrs Carolyn Reed-Rees

**1 Ethol Cadeirydd:**- Diolchodd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees i'r Cyngor am y fraint o gael bod yn Gadeirydd, ac adroddodd ei bod wedi cael blwyddyn bleserus. Diolchodd y Cynghorwyr i'r cadeirydd a oedd yn ymddeol am gadeirio'r cyfarfodydd mor dda ac roeddent oll yn gwerthfawrogi ei gwaith. Yna, gofynnodd y cadeirydd a oedd yn ymddeol i'r Cyngor ethol cadeirydd newydd. Cynigiodd Cyng Keith Evans yr Is-Gadeirydd, Cyng Mrs Eileen Curry; eiliwyd hyn gan Gyng Andrew Howell ac fe'i derbyniwyd. Diolchodd Cyng Mrs Eileen Curry i'r Cyngor ac unwaith eto, canmolodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol am ei gwaith caled.

**2 Cadeirydd** – Llofnodwyd y Datganiad Derbyn Swydd, gan gynnwys y Cod Ymddygiad, gan Gyng Mrs Eileen Curry.

**3 Ethol Is-Gadeirydd:**- Gofynnodd Cyng Mrs Eileen Curry i'r Cyngor ethol Is-Gadeirydd. Cynigiwyd enw Cyng Philip Marchant gan Gyng Tom Cowcher, eiliwyd hyn gan Gyng Andrew Howell ac fe'i dderbyniwyd. Diolchodd Cyng Philip Marchant i'r Cyngor.

**4 Ethol Pwyllgor Cynllunio:**- Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i ailethol y Pwyllgor Cynllunio – Capel Dewi – Cyng Tom Cowcher, Llandysul – Cyng Wyn Evans, Pont-siân – Cyng Mrs Philippa Davies, Tre-groes – Cyng Richard Anwyl. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig parhaus i'r Clerc ddelio gyda'r ceisiadau rhwng cyfarfodydd trwy gysylltu â'r aelodau perthnasol.

**5 Ethol Pwyllgor Cyllid:**- Penderfynwyd ailethol y pwyllgor Cyllid:- Cynghorwyr Douglas Davies, Wyn Evans ac Andrew Howell.

**1 Election of Chair:**- Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees thanked the Council for the privilege of being Chair and reported that she had an enjoyable year. Councillors thanked the retiring chair for chairing the meetings so well and her work was appreciated by all. The retiring chair then called upon the Council to elect a chair. Cllr Keith Evans proposed Vice-Chair, Cllr Mrs Eileen Curry as Chair; this was seconded by Cllr Andrew Howell and carried. Cllr Mrs Eileen Curry thanked the Council and again complemented the retiring Chair for her hard work.

**2 Chair** – Declaration of Acceptance of Office to include Code of Conduct was signed by Cllr Mrs Eileen Curry.

**3 Election of Vice-Chair:**- Cllr Mrs Eileen Curry called upon the Council to elect a Vice-Chair. Cllr Tom Cowcher proposed Cllr Philip Marchant, this was seconded by Cllr Andrew Howell and carried. Cllr Philip Marchant thanked the Council.

**4 Election of Planning Committee:**- It was unanimously resolved to re-elect the Planning Committee – Capel Dewi – Cllr Tom Cowcher, Llandysul - Cllr Wyn Evans, Pontsian – Cllr Mrs Philippa Davies, Tregroes – Cllr Richard Anwyl. Continued delegated authority was given to the Clerk to deal with the applications between meetings by contacting the relevant members.

**5 Election of Finance Committee:**- It was resolved to re-elect the Finance committee:- Cllrs Douglas Davies, Wyn Evans and Andrew Howell.

**6 Archwiliwr Mewnol:-** Penderfynwyd y dylai Mr R J Foulkes barhau i gyflawni rôl yr Archwiliwr Mewnol.

**7 Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol:-** Cynigiodd Cyng Keith Evans enw Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees, eiliwyd hyn gan Gyng Douglas Davies ac fe'i dderbyniwyd.

**8 Asesu Risg:-** Mae camau priodol wedi cael eu cymryd i reoli Rheolaeth Fewnol/Asesu Risg ac i adolygu'r sicrwydd Yswiriant.

**9 Derbyn Mantolen/Datganiad Cyfrifon:-** Cynigiodd Cyng Douglas Davies y dylem dderbyn y Cyfrifon fel cofnod cywir o drafodion y Cyngor yn ystod y flwyddyn, eiliwyd hyn gan Gyng Andrew Howell ac fe'i dderbyniwyd.

**10 Cafwyd Ymddiheuriadau** wrth Gynghorwyr Beth Davies, Peter Davies, Wyn Evans a Breian Teifi.

**11 Datgelu Buddiannau:-** Cyng Philip Marchant – Pwll Nofio Llandysul. Cyng Keith Evans – Sioe Llandysul a CFFI Pont-siân – Rali a Gŵyl Ganu. Gadawodd yr aelodau yr ystafell yn ystod y trafodaethau perthnasol. Roedd Cyng Keith Evans wedi sicrhau gollyngiad ynghylch Pwll Nofio Llandysul a Canolfan Geufad Llandysul Paddlers Canoe Centre.

**12** Derbyniwyd bod Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2011 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**13 Materion yn Codi:-** Bydd Ciosgau Coch yn cael ei roi ar Agenda y cyfarfod nesaf.

**14 Rhoddion:-** Datgeliadau yn unol ag “11” uchod.

i) **Grŵp Sgowtiaid 1af Llandysul** – (Jamborî) (a145) Cafwyd eglurhad ynghylch y ffigurau a chynigiodd Cyng Andrew Howell y dylid rhoi £300, eiliwyd hyn gan Gyng Tom Cowcher ac fe'i dderbyniwyd.

ii) **Sioe Llandysul** – (a145) Cynigiodd Cyng Richard Anwyl y dylid rhoi £500, eiliwyd hyn gan Gyng Douglas Davies ac fe'i dderbyniwyd.

iii) **Sioe Pren-gwyn** – (a145) Cynigiodd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees y dylid rhoi £300, eiliwyd hyn gan Gyng Douglas Davies ac fe'i dderbyniwyd.

iv) **C Ff I Pontsian** – (a145) Rali a Cymanfa Ganu 2011 – Cynigiodd Cyng Douglas Davies y dylid rhoi £500, eiliwyd hyn gan Gyng Philippa Davies ac fe'i dderbyniwyd.

**6 Internal Auditor:-** It was resolved that Mr R J Foulkes continues as Internal Auditor.

**7 Internal Control/Internal Checker:-** Cllr Keith Evans proposed Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees, this was seconded by Cllr Douglas Davies and carried.

**8 Risk Assessment:-** Appropriate steps to manage Internal Control/Risk Assessment and review of Insurance cover have been taken.

**9 To Receive Balance Sheet/Statement of Accounts:-** Cllr Douglas Davies proposed that we accept the Accounts as a true record of the Council's transactions over the year, this was seconded by Cllr Andrew Howell and carried.

**10 Apologies** were received from Cllrs Beth Davies, Peter Davies, Wyn Evans and Breian Teifi.

**11 Declarations of Interest:-** Cllr Philip Marchant – Llandysul Swimming Pool. Cllr Keith Evans – Llandysul Show and Pontsian YFC – Rally & Singing Festival. Members left the room during the relevant discussions. Cllr Keith Evans has dispensation re Llandysul Swimming Pool and Canolfan Ceufad Llandysul Paddlers Canoe Centre.

**12 Minutes** of monthly meeting held on 11 April 2011 were accepted as correct and signed by the Chair.

**13 Matters Arising:-** Red Kiosks to be placed on the Agenda for discussion at the next meeting.

**14 Donations:-** Declarations as in “11” above.

i) **1<sup>st</sup> Llandysul Scouts Group** – (Jamboree) (s145) Clarification was received re figures and Cllr Andrew Howell proposed £300, this was seconded by Cllr Tom Cowcher and carried.

ii) **Llandysul Show** – (s145) Cllr Richard Anwyl proposed a donation of £500, this was seconded by Cllr Douglas Davies and carried.

iii) **Prengwyn Show** – (s145) Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees proposed £300, this was seconded by Cllr Douglas Davies and carried.

iv) **C Ff I Pontsian Y F C** – (s145) 2011 Rally & Singing Festival – Cllr Douglas Davies proposed £500, this was seconded by Cllr Philippa Davies and carried.

- v) **Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru** – Penderfynwyd dosbarthu'r wybodaeth a gafwyd er mwyn ei thrafod yn ystod y cyfarfod nesaf.
- vi) **Pwll Nofio Llandysul** – (a19) Cynigiodd Cyng Andrew Howell y dylem roi'r swm o £4,961.67, eiliwyd hyn gan Gyng Tom Cowcher ac fe'i dderbyniwyd.
- vii) **Cronfa Goffa T Llew Jones** – Anfonir ffurflen Cais am Grant at y Gronfa.
- viii) **Carnifal Llandysul** – Cafwyd nodyn yn diolch i'r cyngor am gytuno i roi rhodd.
- ix) Cafwyd **cydnabyddiaeth derbyn rhoddion** wrth:- **Macmillan Cancer Support**, **Eglwys Dewi Sant** Capel Dewi ac **Apêl y Pabi Llandysul**.
- x) **Canolfan Geufad Llandysul Paddlers Canoe Centre** – (a19) Cynhelir **Pencampwriaethau Slalom Iau a Phrofiadol Prydain** yn Llandysul ar benwythnos 21/22 Mai 2011. Cafwyd llythyr a ffurflen wedi'i llenwi ar ôl dosbarthu'r Agenda. Ystyriwyd y budd i'r gymuned ac o ystyried natur frys y cais, penderfynwyd rhoi rhodd. Cynigiodd Cyng Philippa Davies y dylid rhoi £500, eiliwyd hyn gan Gyng Douglas Davies ac fe'i dderbyniwyd.
- xi) **Cymdeithas Hanes Llandysul a'r Fro a Phapur Bro y Garthen** – Cafwyd ffurflenni cais am grant wedi'u llenwi a byddant yn cael eu rhoi ar yr Agenda ar gyfer mis nesaf. Yn ogystal, gofynnir i Bapur Bro y Garthen a ydynt wedi gwneud cais am grant wrth Geredigion ac adroddir am hyn.

**15 BDO** – Cafwyd ffurflen **Datganiad Blynyddol** (gan gynnwys y newidiadau a wnaethpwyd yn ddiweddar) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.3.2011, ynghyd ag hysbysiad Archwiliad Blynyddol. Dosbarthwyd **Adran 1** ac **Adran 2** i bawb gyda'r Agenda a'r Cofnodion. Penderfynwyd y dylai'r Cyngor gymeradwyo **Adran 1** – **Y Datganiadau Ariannol**, i'w lofnodi gan y Clerc a'i anfon ymlaen at yr Archwiliwr Allanol (sef dadansoddiad o'r ffigurau a gymeradwywyd dan “9” uchod). **Adran 2** – Penderfynwyd cymeradwyo'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** ar yr amod bod y Clerc yn arddangos hysbysiad i'r cyhoedd sy'n nodi bod y cofnodion

- v) **Welsh Religious Buildings Trust** – It was decided to circulate the information received for discussion at next meeting.
- vi) **Llandysul Swimming Pool** – (s19) Cllr Andrew Howell proposed we donate the sum of £4,961.67, this was seconded by Cllr Tom Cowcher and carried.
- vii) **T Llew Jones Memorial Fund** – Grant Application form to be forwarded.
- viii) **Llandysul Carnival** – A note was received thanking for agreeing to give a donation.
- ix) **Acknowledgement of receipt of donations** were received from:- **Macmillan Cancer Support**, **Eglwys Dewi Sant** Capel Dewi and **Llandysul Poppy Appeal**.
- x) **Canolfan Ceufad Llandysul Paddlers Canoe Centre** – (s19) **The British Junior and Veteran Slalom Championships** to be held at Llandysul on the weekend of 21/22 May 2011. Letter and completed form was received after the Agenda had been sent. The benefit for the community was taken into consideration and in view of the urgency, it was resolved to give a donation. Cllr Philippa Davies proposed £500, this was seconded by Cllr Douglas Davies and carried.
- xi) **Cymdeithas Hanes Llandysul a'r Fro** and **Papur Bro y Garthen** - Completed grant application forms were received and are to be placed on the Agenda for next month. Also enquire with Papur Bro y Garthen whether they have applied for a grant from Ceredigion and report further.

**15 BDO** – **Annual Return** form (incorporating recent changes) for the year ended 31.3.2011 was received together with notice of Annual Audit. **Section 1** & **Section 2** were circulated to all with the Agenda and Minutes. It was resolved that **Section 1** – **Accounting Statements** is approved by the Council for signature by the Clerk for forwarding to the External Auditor (being a breakdown of the figures approved under “9” above). **Section 2** – It was resolved to approve of **The Annual Governance Statement** subject to the Clerk displaying a notice to the public informing that the records are available for inspection (18/07/2011 – 31/07/2011). Internal Auditor and Internal Checker have also

ar gael i'w harchwilio (18/07/2011 – 31/07/2011). Mae'r Archwiliwr Mewnol a'r Gwiriwr Mewnol wedi archwilio'r wybodaeth hefyd. Bydd **Adran 4** yn cael ei chwblhau gan yr Archwiliwr Mewnol cyn yr Archwiliad. Yna, anfonir y ffurflen ymlaen at BDO sef yr Archwiliwr Allanol. Bydd **Adran 3** yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor ar ôl yr Archwiliad Allanol ac yna, bydd yn cael ei dychwelyd er mwyn cael llofnod pellach y Clerc a'i chymeradwyo gan y Cyngor. Cyflawnir y weithdrefn uchod yn unol â'r amserlen a bennwyd gan yr Archwiliwr.

**16 Cau Banc Lloyds Llandysul** – I'w roi ar yr Agenda ar gyfer mis nesaf. Anfonir llythyr at bob banc yn holi am eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

**17 Hyfforddiant** – ULIC – Atgoffwyd yr aelodau am yr hyfforddiant a drefnwyd ar gyfer bore dydd Sadwrn, 14 Mai 2011 yng Nghanolfan Ieuencid Tysul. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r rhai nad oeddent yn bresennol. Derbyniwyd y dylid ysgrifennu siec am £250 er mwyn talu'r ffi.

**18 C C T V** – Anfonir llythyr ymlaen at Miss Bronwen Morgan yng Ngheredigion, a hefyd, cysylltir â'r Heddlu.

**19 Gohebiaeth:-**

a) Cafwyd y canlynol wrth **Geredigion:-** Mae'r Praesept wedi cael ei dalu i mewn i'r banc erbyn hyn, a'r swm yw £31,819.05. Cafwyd gwahoddiad wrth Gynghorydd Catherine Hughes i fynychu'r **Cyfarfod Cyffredinol a Derbyniad** ar 20 Mai 2011. Bydd y Cadeirydd yn mynychu. Cafwyd hysbysiad ynghylch y ffaith bod **Sesiwn Hyfforddi am y Cod ymddygiad** wedi cael ei threfnu gan Gyngor Tref Aberteifi ar 16 Mai 2011 yn Aberteifi. **Goryrru yn Rhydowen** – Cafwyd ymateb i'n neges e-bost a anfonwyd yn ddiweddar, a oedd yn nodi nad yw'n ymarferol gosod nodweddion gostegu traffig pellach o ganlyniad i'r troeon a llethr y ffordd. Cafwyd gwybodaeth ynghylch **Cau Ffyrdd** er mwyn cynnal digwyddiadau, bydd angen sicrhau caniatâd Ceredigion.

b) **LICC** – Cafwyd Arolwg Cynghorau Tref a Chymuned 2010: Adroddiad am y Canfyddiadau, ac mae hwn ar gael ar y wefan hefyd.

checked the information. **Section 4** is to be completed by the Internal Auditor prior to the Audit. Form is then to be forwarded to BDO being the External Auditor. **Section 3** is to be approved by the Council after the External Audit and will then be returned for further signature by the Clerk and further approval by the Council. The above procedure is carried out following the Auditor's specified timetable.

**16 Closure of Lloyds Bank Llandysul** – To be placed on the Agenda for next month. Letter to be forwarded to each bank enquiring as to their future prospects.

**17 Training** – OVW – Members were reminded of training arranged for Saturday morning 14<sup>th</sup> May 2011 at Canolfan Ieuencid Tysul Youth Centre. Clerk was requested to contact those not present. Cheque was passed in payment in the sum of £250 to pay the fee.

**18 C C T V** – Letter to be forwarded to Miss Bronwen Morgan at Ceredigion and also liaise with the Police.

**19 Correspondence:-**

a) The following were received from **Ceredigion:-** Precept has now been paid into the bank in the sum of £31,819.05. Invitation was received from Councillor Catherine Hughes to attend the **Annual Meeting and Reception** on the 20<sup>th</sup> May 2011. Chair will be attending. Notice was received that a **Training Session on the Code of conduct** has been arranged by the Cardigan Town Council on 16<sup>th</sup> May 2011 at Cardigan. **Rhydowen Speeding** – Response was received to our recent email which informed that it is not feasible to install further traffic calming features owing to the bends and gradient of the highway. Information was received re **Closure of Roads** to hold events, permission is required from Ceredigion.

b) **WAG** – Community and Town Councils Survey 2010: Findings Report was received and is also available on the website.

- c) **SWALEC** – Cafwyd ad-daliad o £674.20 am y Goleuadau Nadolig.
- d) **Fit Cymru** – Cafwyd llythyr dilynol ynghylch Newid Caeau Brenhines Elizabeth II – Caeau mewn Ymddiriedolaeth.
- e) **WPD** – Cafwyd gwahoddiad i weithdy ar gyfer Budd-ddeiliaid ynghylch Cynlluniau Buddsoddi ar gyfer y Dyfodol.
- f) **Kompan** – Cafwyd gohebiaeth.
- g) **SMP Playgrounds Ltd** – Cafwyd gohebiaeth.
- h) Cafwyd **Chwarae i Gymru**.
- i) **Llinos Jones** – Cawsom ein hysbysu bod y costau teithio yn codi i 45c y filltir o ddechrau mis Ebrill. Cafwyd anfoneb o £159.95 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Ebrill a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- j) **Mr R J Foulkes** – Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon ar 31 Mawrth 2011 wedi cael eu harchwilio ac y canfuwyd eu bod yn gywir yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd, a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic am £25 er mwyn talu'r ffi. Fel y gwiriwr mewnol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Cyng Mrs Eileen Curry wedi archwilio'r cyfrifon hefyd.
- k) **SLCC** – Cafwyd hysbysiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2011 yng Nghaerfyrddin, a chadarnhaodd y Clerc ei bod wedi mynychu.

**20 Biniâu Halen/Graean** – Mae'r gwaith yn parhau.

**21 Goleuadau Nadolig – Datblygiad** – Cedwir yr eitem hon ar yr Agenda.

**22 Gwobr y Gymuned – Tarianau** – Dosbarthwyd hysbysiadau ar gyfer 2011. Archebir tarianau.

**23 Pobl Ifanc yn y Gymuned – Meini Prawf** – Bydd Cyng Andrew Howell yn symud yn ei flaen i ddrafftio'r Meini Prawf er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

**24 Datblygiadau Blodau Llandysul** – Mae'r gwaith plannu yn mynd yn ei flaen.

**25 Lwfans y Cadeirydd** – Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y dylai cyfanswm y lwfans aros yr un fath sef £300.

**26 Cyflog y Clerc** – Gadawodd y Clerc yr ystafell yn ystod y drafodaeth. Penderfynwyd rhoi codiad Cyflog.

c) **SWALEC** – Reimbursement was received re Christmas Lighting in the sum of £674.20.

d) **Fit Cymru** – Follow up letter re Queen Elizabeth II Fields Change - Fields in Trust was received.

e) **WPD** – Invitation to Stakeholder workshop on Future Investment Plans was received.

f) **Kompan** - Correspondence was received.

g) **SMP Playgrounds Ltd** – Correspondence was received.

h) **Play for Wales** was received.

i) **Llinos Jones** – We were informed of the increase in travelling costs to 45p per mile from the beginning of April. An invoice for translating for the month of April was received in the sum of £159.95 and passed for payment.

j) **Mr R J Foulkes** – Confirmation was received that the accounts as at 31 March 2011 have been examined and found to be correct on the information provided and cheque passed in payment for the fee of £25. Cllr Mrs Eileen Curry as internal checker for the past year has also checked the accounts.

k) **SLCC** – Notice of meeting held on 7<sup>th</sup> May 2011 at Carmarthen was received, the Clerk confirmed that she had attended.

**20 Salt/Grit Bins** – Work is ongoing.

**21 Christmas Lights – Development** – To remain on the Agenda.

**22 Community Award – Shields** – Notices for 2011 were distributed. Shields are to be ordered.

**23 Young People in the Community – Criteria** – Cllr Andrew Howell is proceeding to further draft the Criteria for approval by the Council.

**24 Development of Llandysul Flowers** – Planting is ongoing.

**25 Chair's Allowance** – It was unanimously decided that the allowance is to remain at £300.

**26 Clerk's Salary** – The Clerk left the meeting during the discussion. It was resolved to give an increase in Salary.

27 **Cynllunio:** Cafwyd Hysbysiad ynghylch Cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, i'w gynnal ar 11 Mai 2011.

Archwiliwyd a chymeradwywyd y cynlluniau canlynol:-  
A110296 – Tir gerllaw Ficerdy Tanyfron  
A110327 – Penwalcen, Pont-siân – ymestyn y cyfnod er mwyn cychwyn ar y gwaith.

**Caniatâd Cynllunio**

4 Heol Ifor, Llanfihangel-ar-Arth – estyniad ac ystafell aml-bwrpas.

Llain gerllaw Tŷ'r Felin, Rhydowen – annedd.

Haulfryn, Rhydowen – estyniadau.

Llain gerllaw Golygfa, Maesymeillion – annedd.

Derwen Cottage, Rhydowen – estyniadau.

Penrhiw, Capel Dewi – Dau tyrbîn gwynt 12kw ar ben mast 15m.

**Tynnwyd yn ôl** – Llain y tu ôl i Faes y Coed, Stryd y Ffynnon.

**Gwrthod Caniatâd Cynllunio** – Nant-yr-Ythan llety cŵn magu.

27 **Planning:** Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 11 May, 2011 was received.

The following plans were inspected and approved:-  
A110296 – Land adjacent Tanyfron Vicarage  
A110327 – Penwalcen, Pontsian – extend the time for commencement of work.

**Planning Permission**

4 Heol Ifor, Llanfihangel-ar-Arth – extension and utility.

Plot adj. Ty'r Felin, Rhydowen – dwelling.

Haulfryn, Rhydowen – extensions.

Plot adj. Golygfa, Maesymeillion – dwelling.

Derwen Cottage, Rhydowen – extensions.

Penrhiw, Capel Dewi – Two 12kw wind turbines on 15m masts.

**Withdrawn** – Plot to rear of Maes y Coed, Well Street.

**Refusal of Planning Permission** – Nant-yr-Ythan breeding kennels.